

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Mai 2018	Kath Thomas – Dipwrwy Glerc
Amser: 09.00	0300 200 6565
	SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 38)

2 Deisebau newydd

2.1 P-05-805 Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi
(Tudalennau 39 – 47)

2.2 P-05-808 Ni ddylai Cymraeg fod yn orfodol i blant â dyslecsia ac anghenion
arbennig
(Tudalennau 48 – 55)

2.3 P-05-809 Is-ddeddfau Pysgota arfaethedig Newydd a methiannau Cyfoeth
Naturiol Cymru
(Tudalennau 56 – 66)

2.4 P-05-810 Rhowch Gyfle i Glybiau Pysgota Cymru ac Eog a Brithyll y Môr
(Tudalennau 67 – 79)

2.5 P-05-811 Rhoi'r gorau i ddefnyddio ardystiad gweithwyr ar brosiectau
Llywodraeth Cymru
(Tudalennau 80 – 93)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Economi a Thrafnidiaeth

3.1 P-05-780 Ailagor Gorsaf Carno
(Tudalennau 94 – 96)



Addysg

- 3.2 P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru
(Tudalennau 97 – 100)
- 3.3 P-05-757 Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal
gweithredoedd addoli crefyddol
(Tudalennau 101 – 105)
- 3.4 P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol
(Tudalen 106)
- 3.5 P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e.
Seicoleg TGAU
(Tudalennau 107 – 108)
- 3.6 P-05-802 Amddiffyn Maint Dosbarthiadau mewn Ystafelloedd Dosbarth a
Gweithdai Dylunio a Thechnoleg
(Tudalennau 109 – 113)

Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

- 3.7 P-05-781 Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar
(Tudalennau 114 – 117)
- 3.8 P-05-800 Apêl Brys am Gomisiynydd Cyn-filwyr Cymru i ofalu am iechyd a
lles cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu, sy'n sâl neu sy'n ddigartref
(Tudalennau 118 – 122)

Iechyd

- 3.9 P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu –
adnabyddiaeth a chefnogaeth
(Tudalennau 123 – 163)

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip at y Cadeirydd

- 3.10 P-05-793 Band eang cyflym i bentref Llangenni
(Tudalennau 164 – 165)

3.11 P-05-798 Gwasanaethau cymorth i ddynion sy'n ddioddefwyr trais yn y cartref i gael eu rhedeg a'u cyllido'n annibynnol

(Tudalennau 166 – 170)

Plant a Gofal Cymdeithasol

3.12 P-05-804 Mae angen cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae!!

(Tudalennau 171 – 175)

Papurau i'w nodi

4 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Man Anafiadau Ysbyty Tywyn

(Tudalennau 176 – 178)

5 Sesiwn dystiolaeth – P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant

(10:00)

(Tudalennau 179 – 215)

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Gweddill busnes y dydd.

7 Trafod Sesiynau Tystiolaeth Blaenorol

8 Ystyried yr adroddiad drafft – P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd

(Tudalennau 216 – 244)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-05-805 Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sheila Jones, ar ôl casglu 997 o lofnodion ar-lein a 428 o lofnodion ar bapur, cyfanswm o 1,425 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw am i athrawon cyflenwi gael eu talu'n deg a chael mynediad llawn at gyfleoedd hyfforddi a thelerau ac amodau eraill. Dylai fod athro cymwys ym mhob ystafell ddosbarth a dylai arian trethdalwyr fod yn cael ei wario'n uniongyrchol ar addysg, heb fynd i bocedi asiantaethau preifat.

Mae athrawon cyflenwi'n cael cam ac mae athrawon yn gadael y proffesiwn oherwydd na allant fforddio bod yn athrawon cyflenwi.

Mae asiantaethau'n lleihau cyflog athrawon cyflenwi 40 i 60 y cant ac mae athrawon yn colli eu pensiynau. Mae'r sefyllfa'n enghraifft o ddefnyddio arian cyhoeddus i greu elw i'r sector preifat. Mae gwersi'n cael eu darparu gan staff anghymwys.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Caerffili
- Dwyrain De Cymru

Athrawon cyflenwi

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Mai 2018

Petitions Committee | 1 Mai 2018

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-805

Teitl y ddeiseb: Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw am i athrawon cyflenwi gael eu talu'n deg a chael mynediad llawn at gyfleoedd hyfforddi a thelerau ac amodau eraill. Dylai fod athro cymwys ym mhob ystafell ddosbarth a dylai arian trethdalwyr fod yn cael ei wario'n uniongyrchol ar addysg, heb fynd i bocedi asiantaethau preifat. Mae athrawon cyflenwi'n cael cam ac mae athrawon yn gadael y proffesiwn oherwydd na allant fforddio bod yn athrawon cyflenwi.

Mae asiantaethau'n lleihau cyflog athrawon cyflenwi 40 i 60 y cant ac mae athrawon yn colli eu pensiynau. Mae'r sefyllfa'n enghraifft o ddefnyddio arian cyhoeddus i greu elw i'r sector preifat. Mae gwersi'n cael eu darparu gan staff anghymwys.

1. Busnes y Cynulliad Cenedlaethol

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, cynhaliodd y **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** ymchwiliad byr i 'Gyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon' a chyhoeddodd ei [adroddiad](#) ym mis Mai 2014, gan wneud 14 o argymhellion. [Ymatebodd](#) Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2014.

Cynhaliodd Pwyllgor **Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad i athrawon cyflenwi yn 2015. Cyhoeddodd ei [adroddiad terfynol](#) ym mis Rhagfyr 2015. [Ymatebodd](#) Huw Lewis y Gweinidog Addysg ym mis Rhagfyr 2015.

Ymhlith y materion a nodwyd yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, oedd y ffaith nad oedd cyfle i athrawon cyflenwi fanteisio ar raglenni dysgu proffesiynol a bod problemau hefyd ynghlwm wrth ddefnyddio asiantaethau cyflenwi. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn awgrymu y gellid lliniaru llawer o'r problemau pe bai cysylltiadau agosach rhwng cyflogwyr athrawon cyflenwi a'r rhai sy'n gyfrifol am addysg mewn ysgolion, er enghraifft, **trefniadau clwstwr** sy'n cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol neu gorff

llywodraethu. Gwnaeth y Pwyllgor argymhelliad cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru ddechrau gweithio i gynllunio model newydd ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi.

2. Y camau a gymerodd Llywodraeth Cymru

Tasglu ar gyfer Model Cyflenwi

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y **Tasglu Gweinidogol ar gyfer Model Cyflenwi** ym mis Mehefin 2016 i ystyried materion yn ymwneud ag athrawon cyflenwi. [Cyhoeddwyd ei adroddiad](#) ar 2 Chwefror 2017. Derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg [y rhan fwyaf o'r argymhellion](#). Yn yr adroddiad, ystyriwyd modelau gwahanol ar gyfer athrawon cyflenwi, tebyg i'r rhai sydd ar waith yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd (gweler isod), ond gwelwyd ar unwaith nad oedd dim un ateb a fyddai'n addas ar gyfer Cymru gyfan.

Tâl ac amodau athrawon

Yn achos athrawon a gaiff eu cyflogi gan awdurdod lleol neu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, mae'r [Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol](#) yn cyflwyno'r rheolau statudol ynghylch cyflogau athrawon cyflenwi. Fodd bynnag, nid yw athrawon a gyflogir drwy asiantaethau cyflogi'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol na'r ysgol ac felly nid yw'r ddogfen Cyflog ac Amodau'n berthnasol iddynt. Yn gyffredinol, caiff athrawon sy'n perthyn i asiantaeth eu cyflogi gan yr asiantaeth ac, felly, yr asiantaethau unigol sy'n pennu eu cyflog a'u hamodau cyflogaeth. Nid yw athrawon a gaiff eu cyflogi gan asiantaeth cyflenwi'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Nodir yn adroddiad y Tasglu Gweinidogol

Ar hyn o bryd, nid yw cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon wedi'u datganoli i Gymru. Pe baent yn cael eu datganoli yn y dyfodol, byddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o bennu cyflog ac amodau athrawon cyflenwi.

Mae'r cyfrifoldeb dros bennu cyflog ac amodau athrawon wedi'i ddatganoli erbyn hyn. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n [ymgyngori ar hyn o bryd](#) (tan 4 Mai 2018) ynghylch y model arfaethedig ar gyfer pennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru. Medi 2019 yw'r dyddiad cynharaf y byddai system gyflog newydd yn dod i rym yng Nghymru. Mae [Deddf Cymru 2017](#) yn cadw pensiynau athrawon yn ôl fel swyddogaeth heb ei datganoli.

Roedd adroddiad y Tasglu Gweinidogol yn cynnwys [data a gesglir gan Gyngor y Gweithlu Addysg](#) a ddangosodd fod 46.7 y cant (1,987) o athrawon cyflenwi, ym mis Gorffennaf 2016, yn cael eu cyflogi gan awdurdod lleol o'i gymharu â 50.4 y cant (2,143) a oedd yn cael eu cyflogi gan asiantaeth gyflenwi.

Trefniadau clwstwr

Ar 24 Hydref 2017, [cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg](#) brosiect gwerth £2.7 miliwn a fydd yn helpu 15 o awdurdodau lleol i roi trefniadau newydd ar waith ar gyfer

athrawon cyflenwi mewn 86 o ysgolion. Bydd y prosiect yn helpu i benodi tua 50 o athrawon a fydd wedi cymhwyso'n ddiweddar i weithio mewn grwpiau o ysgolion, yn ystod absenoldeb athrawon ac i hybu newidiadau ehangach i wella ysgolion a chanlyniadau dysgwyr. Bydd y prosiect peilot yn cael ei gynnal yn ystod blynyddoedd ariannol 2017–18 a 2018–19.

Contract athrawon cyflenwi

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi sefydlu contract tair blynedd ar gyfer staff cyflenwi a New Directions yw'r 'darparwr a ffefrir'. Daeth y contract i rym ar 1 Awst 2015, ac mae'n para am dair blynedd (gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn am ddeuddeng mis arall). Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Cytundebau Fframwaith. Mae Awdurdodau Lleol yn disgwyl i ysgolion yn eu hardaloedd ddefnyddio'r fframwaith i ddod o hyd i athrawon cyflenwi. Nid oes raid i ysgolion ddefnyddio'r fframwaith, fodd bynnag, ac mae rhwydd hynt iddynt i ddefnyddio unrhyw ddull o gyflogi athrawon cyflenwi.

3. Gogledd Iwerddon

Yn ei hymateb i'r Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod y Deisebydd yn 'hyrwyddo' model Gogledd Iwerddon ar gyfer athrawon cyflenwi.

Ym mis Mawrth 2004, sefydlwyd Cofrestr Athrawon Wrth Gefn Gogledd Iwerddon (NISTR) gan Adran Addysg Gogledd Iwerddon, a hynny mewn partneriaeth ag awdurdodau cyflogi, cymdeithasau cymorth a'r undebau athrawon. Cronfa ddata ganolog ranbarthol yw NISTR ac mae'n cynnwys enw pob athro wrth gefn (cyflenwi) yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n caniatáu i ysgolion lleol ddefnyddio'r gronfa ddata ar fyr rybudd er mwyn dod o hyd i athrawon wrth gefn pan fydd eu hathrawon arferol yn absennol. Caiff yr athrawon wrth gefn eu talu bob mis gan Dîm Cyflogau Athrawon yr Adran Addysg am y cyfnodau y buont yn cyflenwi mewn ysgolion. Ers Medi 2006, rhaid i ysgolion ddefnyddio'r Gofrestr ar-lein i gyflogi athrawon wrth gefn.

Cyflogir athrawon wrth gefn yn unol ag amodau a thelerau gwasanaeth Gogledd Iwerddon. Maent hefyd yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon Gogledd Iwerddon (NITPS).

Mewn perthynas â model Gogledd Iwerddon, dywedodd adroddiad y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Model Cyflenwi:

Y manteision amlwg yn gysylltiedig â'r math hwn o fodel yw bod yr holl athrawon dros dro wrth gefn sydd wedi'u cofrestru ar NISTR yn gallu elwa ar gyfres statudol o delerau ac amodau gwasanaeth cenedlaethol, a'r buddion sy'n gysylltiedig â hynny. O'n safbwynt ni, nid yw cyflog ac amodau wedi'u datganoli eto, mae'r dull o recriwtio athrawon cyflenwi yn amrywio, a gwneir defnydd sylweddol o asiantaethau cyflenwi masnachol i fodloni anghenion ysgolion. Yn y cyd-destun presennol, felly, mae'n anodd gweld sut y gallai model canoledig tebyg weithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol a geir ar hyn o bryd yng Nghymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei

gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Eich cyf/Your ref P-05-807
Ein cyf/Our ref KW/00597/18

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David John Rowlands AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA
government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

5 Mawrth 2018

Annwyl David ,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Chwefror am ddeiseb Laura Charles-Price yn annog Llywodraeth Cymru i newid y canllawiau ar wobrau presenoldeb mewn ysgolion yng Nghymru.

Mae [Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan](#) yn rhoi arweiniad a safonau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau yr adroddir ar bresenoldeb mewn ffordd gyson. Os oes gan yr ysgol gynllun gwobrwyo presenoldeb ar gyfer disgyblion, yna cyfrifoldeb yr ysgol yw penderfynu ar y meini prawf ar gyfer rhoi'r gwobrau. Mae ysgolion yn pennu eu targedau presenoldeb eu hunain, ar y cyd ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn ffordd o sicrhau y caiff amgylchiadau penodol pob ysgol ei ystyried. Y disgwyl yw bod y targedau hyn yn heriol, ond yn realistig.

Ar dudalen 8 o'r [canllawiau](#) atodedig rhoddir cyngor ar y defnydd o wobrau a chymhelliannau mewn ysgolion, ynghyd ag ambell astudiaeth achos.

Yn 2014, comisiynwyd Estyn i wneud adolygiad thematig o bresenoldeb mewn ysgolion. Un o brif ganfyddiadau'r [adroddiad](#) ar arfer effeithiol mewn ysgolion cynradd yw bod ysgolion sydd â phresenoldeb da neu bresenoldeb sy'n gwella yn defnyddio gwobrau a chymhelliannau i annog presenoldeb. Nododd yr adroddiad y gall hyn fod yn ffordd dda o annog presenoldeb.

Fodd bynnag, hoffai Llywodraeth Cymru bwysleisio bod angen tegwch mewn system o'r fath.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau dysgu i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledd (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf). Dylid ystyried hyn wrth benderfynu pwy sy'n gymwys ar gyfer

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 44
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cynlluniau gwobrwyo er mwyn sicrhau nad yw disgyblion ag anableddau a/neu anawsterau dysgu dan anfantais.

Mae Deddf 2010 yn gymwys i bob ysgol a gynhelir ac ysgol annibynnol, gan gynnwys ysgolion arbennig. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno dyletswyddau penodol gyda'r nod o helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni eu hymrwymadau o dan Ddeddf 2010. Felly, os oes gan ysgol gynllun gwobrwyo presenoldeb, rhaid sicrhau ei fod yn cyd-fynd â darpariaethau Deddf 2010 gan sicrhau nad yw'n rhoi plant ag anableddau neu gyflyrau meddygol dan anfantais. Golyga hyn na ddylai plant neu bobl ifanc sydd â phresenoldeb sy'n llai na 100% am resymau meddygol ddioddef oherwydd hynny, o ran system gwobrwyo presenoldeb yr ysgol.

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru '[Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal iechyd](#)' hefyd yn berthnasol ac yn bwysig yn y cyd-destun hwn. Yr hyn a ddwedwn yw ei bod yn annerbyniol cosbi dysgwyr am eu presenoldeb os yw'r absenoldeb oherwydd anghenion gofal iechyd. Ni ddylid defnyddio 'absenoldebau awdurdodedig', megis apwyntiadau meddygol, amser teithio i'r ysbyty, amser gwella ar ôl triniaeth ac ati, i gosbi dysgwyr mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gymryd rhan mewn gweithgareddau, teithiau neu wobrau annog presenoldeb.

Gan weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, mae fy swyddogion ar hyn o bryd yn adolygu'r canllawiau presenoldeb i sicrhau bod y trefniadau'n parhau i ddarparu cefnogaeth effeithiol ac eglurder i awdurdodau lleol, ysgolion, rhieni a dysgwyr. Fel rhan o'r adolygiad hwn, rhoddwn sylw dyledus i gynlluniau gwobrwyo a chymell.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Re: Supply Teacher Petition

Dear Mr. Rowlands,

Thank you for accepting our petition regarding our concerns about supply teaching in Wales and for the kind attention of your staff who have been very helpful.

In her reply to you the Cabinet Secretary reminds us about her initiative for NQTs

- We remind her that 50 NQTs will make a tiny impact and doesn't help the thousands of experienced qualified teachers who are being paid a very poor daily rate, as little as £80 a day in Swansea. We would like the cluster project to be made more widely available to experienced teachers. We understand that the cluster project has not had the take up expected.

She has issued guidance about Agency Workers Regulations

- Supply teachers are still being offered employment on condition they sign the Swedish Derogation

Kirsty Williams published the Welsh Government's Toolkit Guide – Code of Practice – Ethical Employment in Supply Chains to the education sector including commercial recruitment agencies. This document tells employers they should: "*...be mindful of the School Teacher's Pay and Conditions Document and should consider this document when reaching an agreement on the terms of contract and the impact on the supply teacher*"

- What does this mean? Because it is far too vague to have any impact on our pay or conditions. It does not direct schools or agencies to pay us commensurate with our skills and experience.
- We are currently paid a poor flat rate that stays the same for years on end and we have a very poor pension scheme via agencies. Pay rates in Wales are generally much lower than in England.

Kirsty Williams told us about Pay and Conditions being devolved to Wales.

- By the time this is in place and hopefully things will
- Improve, many more highly qualified teachers will have left the profession to take on alternative employment.

Kirsty Williams reminds us about investment in HWB.

- The very small number of supply teachers who have accessed HWB shows it has a long way to go before it will impact on our practice, few schools are engaged with it

as yet. We also need to have CPD with providers as we should have the same training and opportunities as permanent staff. Currently many agencies including ND charge teachers to attend CPD, so not only do they lose a day's pay they also have to pay for the training.

New Directions are making huge profits from the public purse as the 'Preferred Supplier'

- We met with Neil Thomas of the NPS recently and pointed out some very poor practices, such as a culture of fear imposed on teachers, rates of pay from agencies varying between different authorities for teachers doing the same job and account managers suddenly removing teachers from schools just before AWR would take effect.

Use of unqualified staff in schools.

- As the Cabinet Secretary is aware we have made many FOIs about who is taking lessons in schools. Our replies show that a huge number of lessons are being taken by people who are not qualified teachers. Schools are able to employ anyone with an enhanced DBS to 'supervise' a class. Surely every child has the right to be taught by a qualified teacher and not just supervised? Cover supervisors are being paid around £55 a day to cover classes, just enough to satisfy minimum wage rules, they are also being exploited.

As you can see we have a catalogue of concerns . Ultimately, we would like the pay and conditions We hope you will consider this petition in the light of the information we have given.

Yours sincerely

Sheila Jones
Angela Sandles
Ruth Treen
Cathy Grunis

Representatives of Fair Deal for Supply Teachers

Eitem 2.2

P-05-808 Ni ddylai Cymraeg fod yn orfodol i blant â dyslecsia ac anghenion arbennig

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jessica Fox, ar ôl casglu XXX o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb

Fel llawer o blant eraill yn y Deyrnas Unedig, mae fy mab yn dioddef o dyslecsia. Mae ysgrifennu a darllen Saesneg yn her ddyddiol felly dychmygwch orfod dysgu darllen ac ysgrifennu iaith arall na fyddwch byth yn ei defnyddio. Dyma beth mae fy mab yn gorfod ei wneud bob dydd gan ein bod yn byw yng Nghymru. Rwyf wedi ceisio ei dynnu o'r gwersi Cymraeg fel y gall gael gwersi Saesneg ychwanegol ond mae'n rhwymedigaeth gyfreithiol i'r ysgol ddysgu Cymraeg yng Nghymru. Mae'n her ddyddiol i blant â dyslecsia sy'n byw yng Nghymru. Dylai Cymraeg fod yn ddewisol i blant â dyslecsia ac anghenion arbennig, ac nid yn orfodol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyrain Casnewydd
- Dwyrain De Cymru

Ni ddylai Cymraeg fod yn orfodol i blant â dyslecsia ac anghenion arbennig

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Mai 2018

Petitions Committee | 1 May 2018

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-808

Teitl y ddeiseb: Ni ddylai Cymraeg fod yn orfodol i blant â dyslecsia ac anghenion arbennig

Testun y ddeiseb: *Fel llawer o blant eraill yn y Deyrnas Unedig, mae fy mab yn dioddef o dyslecsia. Mae ysgrifennu a darllen Saesneg yn her ddyddiol felly dychmygwch orfod dysgu darllen ac ysgrifennu iaith arall na fyddwch byth yn ei defnyddio. Dyma beth mae fy mab yn gorfod ei wneud bob dydd gan ein bod yn byw yng Nghymru. Rwyf wedi ceisio ei dynnu o'r gwersi Cymraeg fel y gall gael gwersi Saesneg ychwanegol ond mae'n rhwymedigaeth gyfreithiol i'r ysgol ddysgu Cymraeg yng Nghymru. Mae'n her ddyddiol i blant â dyslecsia sy'n byw yng Nghymru. Dylai Cymraeg fod yn ddewisol i blant â dyslecsia ac anghenion arbennig, ac nid yn orfodol.*

Y cefndir

Mae Cymraeg (naill ai iaith gyntaf neu ail iaith yn dibynnu a yw ysgol yn un cyfrwng Cymraeg ai peidio) yn **bwnc statudol** yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru. Daeth yn bwnc gorfodol i bob disgybl yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 ym 1990 ac yng Nghyfnod Allweddol 4 ym 1999. Ar ôl cyhoeddi adolygiad yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm yng Nghymru, [Dyfodol Llwyddiannus](#) (Chwefror 2015), [cadarnhaodd Huw Lewis, y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ar y pryd](#) (Hydref 2015) ei fod wedi derbyn argymhellion yr Athro Donaldson ar y cwricwlwm newydd i Gymru y bydd Cymraeg yn parhau i fod yn orfodol ym mhob ysgol hyd at 16 oed. Mae [Gorchymyn Cymraeg Ail Iaith](#) y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol yn datgan:

Dylai dysgwyr o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

Er bod Cymraeg yn bwnc gorfodol yn y cwricwlwm cenedlaethol, nid yw'n orfodol cofrestru dysgwyr i sefyll arholiad TGAU neu gymhwyster arall. Mater i ysgolion yw penderfynu ar gymhwyster penodol ac fe'i gwneir ar lefel leol.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Cymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017–21

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes [Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21](#) sy'n nodi cyfeiriad Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg orfodol cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg dros y pedair blynedd nesaf. Mae hyn yn ailadrodd na fydd statws y Gymraeg fel pwnc gorfodol yn newid ac:

yn y dyfodol, rhoddir mwy o bwys ar y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng i addysgu a dysgu.

Ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [atebion i gwestiynau cyffredinol](#). Dywed:

Beth am ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol?

- Rhaid inni sicrhau y gall pob dysgwr gael mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg a phrofi'r cyfleoedd gorau i ddatblygu eu sgiliau iaith.
- Mae tegwch yn golygu bod angen inni sicrhau bod y system, ar lefel ysgolion, ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol, yn ystyried yr heriau unigryw sy'n wynebu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr, ac yn ymateb i'r heriau hynny.

Anghenion dysgu ychwanegol

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli'r Fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig gydag un newydd yn seiliedig ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y disgwylir iddo gael ei weithredu o 2020. Hyd nes y caiff ei weithredu, mae'r trefniadau presennol ar gyfer nodi a darparu ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig yn parhau i fod ar waith fel y nodwyd yn Neddf Addysg 1996 ac yn fwy manwl yn y [Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig](#) (a gyflwynwyd yn 2002 a'i ddiweddarau yn 2004). Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau blynyddoedd cynnar a'r rhai sy'n eu helpu, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol roi sylw i'r Cod.

Mae'r Cod hefyd yn nodi'r egwyddor sylfaenol:

dylid cynnig cyfle llawn i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael addysg eang, gytbwys a pherthnasol, wedi'i seilio ar y Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae hefyd yn nodi:

Mae'n ofynnol i bob ysgol gynllunio cwricwlwm sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n statudol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Dylai athrawon gyflwyno rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol *mewn ffyrdd sy'n cwrdd ag anghenion dysgu neilltuol eu disgyblion*. Caniateir rhai amrywiadau yn y gofynion yng nghyfnod allweddol 4 trwy ddefnyddio'r rheoliadau o dan Adran 363 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n caniatáu datgymhwyso pynciau sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol at ddibenion penodol.

Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys, cyhoeddodd hefyd [God Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft](#) (Chwefror 2017) nad oedd yn destun ymgynghoriad ei hun, ond fe'i bwriadwyd fel cymorth i ddeall y Bil. Roedd y Cod drafft yn cynnwys yr egwyddor gyffredinol bod yn **rhaid** i ddysgwyr dderbyn cymorth i gyfranogi mor llawn â phosibl mewn addysg brif ffrwd a'r Cwricwlwm Cenedlaethol pan fydd hynny'n ymarferol.

Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Trafododd y Pwyllgor ddeiseb debyg ([P05-760](#)) a oedd yn galw am atal TGAU Cymraeg Gorfodol, i bawb, yn hytrach nag i rai grwpiau o ddysgwyr. Ar yr adeg honno, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn bendant bod astudio Cymraeg yn parhau i fod yn elfen allweddol yn y cwricwlwm yng Nghymru hyd at 16 oed ac nid oedd unrhyw gynlluniau i newid y sefyllfa hon. Dywedodd y dylai fod digon o gyfleoedd i bob dysgwr ddatblygu ei sgiliau craidd wrth ddysgu Cymraeg, a dylai dysgu Cymraeg ehangu'r cwricwlwm yn hytrach na'i gulhau. Felly, cafodd y ddeiseb ei chau.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-808
Ein cyf/Our ref EM/00174/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

Ebrill 2018

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 6 Mawrth parthed Deiseb P-05-808 *Ni ddylai'r Gymraeg fod yn orfodol i blant â dyslecsia ac anghenion arbennig*, a gyfeiriwyd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Mae'r cyfrifoldeb dros y Gymraeg yn rhan o'm cylch gorchwyl i.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu system addysg gynhwysol i bob dysgwr, beth bynnag ei anghenion a'i gefndir, er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael addysg o'r safon uchaf ac yn gwireddu ei lawn botensial. Mae Deddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar bob awdurdod lleol i ddarparu addysg briodol i bob dysgwr, gan gynnwys disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) megis dyslecsia.

Polisi Llywodraeth Cymru yw gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg yn y cwricwlwm ym mhob ysgol. Mae astudio'r Gymraeg yn ofyniad statudol i bob dysgwr tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 a bydd hyn yn parhau pan gyflwynir y cwricwlwm newydd i ysgolion yn 2020. Dim ond un rhan o'r cwricwlwm ehangach yw dysgu'r Gymraeg a'n nod yw cyflwyno ymyriadau ag iddynt ffocws i ddysgwyr i'w cynorthwyo i gyflawni eu llawn botensial ar draws yr holl bynciau.

Nid ydym yn pennu amser penodedig ar gyfer astudio'r Gymraeg – mater i ysgolion unigol y hwn ac mae ganddynt ryddid i drefnu eu hamserlenni a'u dulliau cyflawni mewn modd sy'n addas i'w dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys strategaethau ar lefel ysgolion i gefnogi dysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu penodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llwv.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh and responses to correspondence in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran datgymhwyso, yng Nghymru gellir datgymhwyso rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cwricwlwm cyfan os yw'n anaddas i ddisgybl ar gyfer y cyfnod arbennig hwnnw. Er enghraifft, gellir eithrio disgyblion dros dro o bynciau penodol os ydynt wedi dod o system addysg wahanol i system Cymru, a bod angen cyfnod arnynt i ymaddasu. Nid yw'n fwriad i ddatgymhwyso dros dro ddatblygu i fod yn eithriad hirdymor o ddarpariaethau'r cwricwlwm cenedlaethol a dim ond mewn amgylchiadau prin y mae'n debygol y bydd angen defnyddio hyn.

Mae gan Benaethiaid ddisgresiwn i gyflwyno 'cyfarwyddyd' ysgrifenedig cyffredinol i egluro pa gamau sy'n cael eu cymryd, gan nodi'r rhesymau dros y trefniadau arbennig. Mae'n rhaid i'r cyfarwyddyd nodi pryd y bydd y trefniadau arbennig hyn yn cychwyn a gorffen, neu'r ffactorau a fydd yn penderfynu pryd y byddant yn gorffen. Ni chaiff cyfarwyddyd cychwynol bara mwy na chwe mis calendr. Fodd bynnag, disgwylir i benaethiaid ddefnyddio eu pwerau cyfarwyddo yn sensitif a chynnil oherwydd dylid rhoi'r cyfle i bob disgybl fanteisio ar ystod lawn o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae manteision ymarferol yn gysylltiedig â dysgu'r Gymraeg i'r sawl sy'n dymuno byw a gweithio yng Nghymru. Mae cwmnïau'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn annog datblygiad gweithluoedd dwyieithog a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid.

Mae hwn yn arwydd clir o'r manteision economaidd sy'n deillio o feddu ar sgiliau Cymraeg, ac mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau angenrheidiol er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn.



Eluned Morgan AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning



Eich cyf/Your ref P-05-808
Ein cyf/Our ref EM/00174/18

David John Rowlands AM
Chair - Petitions committee.
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff Bay
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

April 2018

Thank you for your correspondence of 6 March concerning Petition P-05-808 *Welsh should not be compulsory for children with dyslexia and special needs*, addressed to the Cabinet Secretary for Education. Responsibility for Welsh language falls within my remit.

The Welsh Government is committed to creating an inclusive education system for all learners, regardless of their needs and background, to ensure all learners are able to access a high standard of education and reach their full potential. The Education Act 1996 places the legal duty on local authorities (LAs) to provide suitable education for all learners, including those who have special educational needs (SEN) such as dyslexia.

Welsh Government policy is for the Welsh language to have a firm place in the curriculum at all schools. The study of Welsh is a statutory requirement for all learners until the end of Key Stage 4 and this will continue to be the case in the new curriculum which will be rolled out to schools from 2020. Learning Welsh is just one part of a broad curriculum and our aim is for learners to receive focused interventions at school that help them reach their full potential across all subject areas.

We do not prescribe a set amount of time for the study of Welsh - this is a matter for individual schools and they have the freedom to organise their timetabling and delivery methods in ways that are appropriate for their learners. This includes school level strategies to support learners with SEN specific learning difficulties.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

With regard to disapplication, in Wales some or all of the National Curriculum may be temporarily disapplied for a pupil if, for that particular time, it is inappropriate to him or her. For example, temporary exemption from particular subjects can be applied for pupils who have arrived from a different educational system to Wales and require a period of adjustment. Temporary disapplication is not intended to provide long-term exemption from the national curriculum provisions and is likely to be needed in rare circumstances only.

Head teachers have the discretion to issue a written general 'direction' explaining the action that is being taken and stating why exceptional arrangements are necessary. Any direction must specify when the exceptional arrangements will start and end, or the factors that will determine their ending. An initial direction may last no longer than six calendar months. However, it is expected that head teachers use their powers of direction sensitively and sparingly because all pupils should have the opportunity of benefiting from the full range of National Curriculum subjects.

There are practical advantages to learning Welsh for those who wish to live and work in Wales. Public and private sector companies are now actively encouraging the growth of bilingual workforces and the availability of Welsh-medium services to meet customer needs.

This is a clear indication of the economic benefits of Welsh language skills and we have a duty to ensure that all our young people are equipped with the skills they may need to take up such opportunities.

Yours Sincerely
Eluned Morgan

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

Eitem 2.3

P-05-809 Is-ddeddfau Pysgota arfaethedig Newydd a methiannau Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sian Godbert, ar ôl casglu 1,070 o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb

Fel mater o frys, gofynnwn i Weinidog y Cabinet ymchwilio i ymddygiad Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y broses ymgynghori a'r argymhelliad i wneud newidiadau i is-ddeddfau pysgota gwialen a llinell yng Nghyfarfod y Bwrdd (Cyfoeth Naturiol Cymru) a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor ar 18 Ionawr 2018, cyn derbyn unrhyw gynigion i newid is-ddeddfau pysgota presennol.

1. Methodd Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru â dilyn y drefn ddemocrataidd drwy wrthod caniatáu i aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bleidleisio ar gynigion newydd o ran Is-ddeddfau pysgota newydd gan bysgotwyr gwialen a llinell. Mabwysiadodd Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru safiad didrugaredd, ac anwybyddodd bryderon y rhanddeiliaid yn ystod y broses ymgynghori ac aelodau Bwrdd llawn Cyfoeth Naturiol Cymru yn y cyfarfod.
2. Argymhellodd Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru newidiadau i'r Is-ddeddfau i Gynulliad Cymru ac yntau wedi ardystio yng nghyfarfod y Bwrdd na fyddai'r cynigion yn effeithio llawer, neu ddim o gwbl, ar leihau stociau eogiaid a brithyllod môr o fewn dalgylchoedd afonydd mewndirol ledled Cymru.
3. Gyda Swyddogion Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cydnabod bod "materion eraill" sy'n cyfrannu at leihau'r stociau eog a brithyllod môr, methasant â blaenoriaethu a gweithredu ar y "materion eraill" hyn, ac maent wedi gwneud hynny dros nifer o ddegawdau, heb gynllunio ar gyfer y dyfodol. Felly, mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn torri gofynion Adran 6 (6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn methu â chyflawni ei

hamcan o leihau'r risg i lefelau stoc eog a brithyllod môr yn afonydd Cymru, yn enwedig o ran:

(a) Atal, monitro, gorfodi ac erlyn yn effeithiol o ran llygredd.

(b) Monitro ysglyfaethu bywyd gwyllt ac argymell rheolaethau cymesur.

Gwybodaeth ychwanegol

4. Derbyniodd Swyddogion Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn agored yng nghyfarfod y Bwrdd eu bod wedi methu â chyfathrebu'n effeithiol a mabwysiadu polisi o weithredu cytundebau gyda rhanddeiliaid, y disgwylir iddynt fonitro ac adrodd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru a gorfodi'n wirfoddol y newidiadau arfaethedig i is-ddeddfau, y mae llawer yn anghytuno â nhw.

5. Methwyd â mabwysiadu strategaeth, a gydnabyddir fel arfer gorau mewn gwledydd eraill, i fonitro ac asesu risg pob afon yn gywir, nac argymell dim sancsiynau fesul afon unigol, gyda rhanddeiliaid perthnasol.

6. Mae Bwrdd a Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru wedi methu â bodloni gofynion gofal a diwydrwydd dyladwy yn ystod y broses ymgynghori, a arweiniodd at fethiant i gydnabod pa mor bwysig yw sut y bydd eu his-ddeddfau newydd yn effeithio'n andwyol ar:

(a) Gyfleoedd pysgota hamdden, budd economaidd i gymunedau gwledig ac arfordirol, a hefyd maent yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

(b) Ewyllys da rhanddeiliaid sydd wedi monitro a gwarchod yr amgylchedd naturiol yn effeithiol heb Cyfoeth Naturiol Cymru ers dros ddegawd, a pheryglwyd yr ewyllys da barhaus honno ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberconwy
- Gogledd Cymru

P-05-809 Is-ddeddfau Pysgota Arfaethedig Newydd

Y Pwyllgor Deisebau | 01 Mai 2018

Petitions Committee | 01 May 2018

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-809

Teitl y ddeiseb: Is-ddeddfau Pysgota Arfaethedig Newydd a methiannau CNC

Testun y ddeiseb:

Fel mater o frys, gofynnwn i Weinidog y Cabinet ymchwilio i ymddygiad Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y broses ymgynghori a'r argymhelliad i wneud newidiadau i is-ddeddfau pysgota gwialen a llinell yng Nghyfarfod y Bwrdd (Cyfoeth Naturiol Cymru) a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor ar 18 Ionawr 2018, cyn derbyn unrhyw gynigion i newid is-ddeddfau pysgota presennol.

1. Methodd Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru â dilyn y drefn ddemocrataidd drwy wrthod caniatáu i aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bleidleisio ar gynigion newydd o ran Is-ddeddfau pysgota newydd gan bysgotwyr gwialen a llinell. Mabwysiadodd Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru safiad didrugaredd, ac anwybyddodd bryderon y rhanddeiliaid yn ystod y broses ymgynghori ac aelodau Bwrdd llawn Cyfoeth Naturiol Cymru yn y cyfarfod.

2. Argymhellodd Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru newidiadau i'r Is-ddeddfau i Gynulliad Cymru ac yntau wedi ardystio yng nghyfarfod y Bwrdd na fyddai'r cynigion yn effeithio llawer, neu ddim o gwbl, ar leihau stociau eogiaid a brithyllod môr o fewn dalgylchoedd afonydd mewndirol ledled Cymru.

3. Gyda Swyddogion Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cydnabod bod "materion eraill" sy'n cyfrannu at leihau'r stociau eog a brithyllod môr, methasant â blaenoriaethu a gweithredu ar y "materion eraill" hyn, ac maent wedi gwneud hynny dros nifer o ddegawdau, heb gynllunio ar gyfer y dyfodol. Felly, mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn torri gofynion Adran 6 (6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn methu â chyflawni ei hamcan o leihau'r risg i lefelau stoc eog a brithyllod môr yn afonydd Cymru, yn enwedig o ran:

(a) Atal, monitro, gorfodi ac erlyn yn effeithiol o ran llygredd.

(b) Monitro ysglyfaethu bywyd gwyllt ac argymell rheolaethau cymesur.

Gwybodaeth ychwanegol

4. Derbyniodd Swyddogion Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn agored yng nghyfarfod y Bwrdd eu bod wedi methu â chyfathrebu'n effeithiol a mabwysiadu polisi o weithredu cytundebau gyda rhanddeiliaid, y disgwylir iddynt fonitro ac adrodd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru a gorfodi'n wirfoddol y newidiadau arfaethedig i is-ddeddfau, y mae llawer yn anghytuno â nhw.

5. Methwyd â mabwysiadu strategaeth, a gydnabyddir fel arfer gorau mewn gwledydd eraill, i fonitro ac asesu risg pob afon yn gywir, nac argymell dim sancsiynau fesul afon unigol, gyda rhanddeiliaid perthnasol.

6. Mae Bwrdd a Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru wedi methu â bodloni gofynion gofal a diwydrwydd dyladwy yn ystod y broses ymgynghori, a arweiniodd at fethiant i gydnabod pamor bwysig yw sut y bydd eu his-ddeddfau newydd yn effeithio'n andwyol ar:

(a) Gyfleoedd pysgota hamdden, budd economaidd i gymunedau gwledig ac arfordirol, a hefyd maent yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

(b) Ewyllys da rhanddeiliaid sydd wedi monitro a gwarchod yr amgylchedd naturiol yn effeithiol heb Cyfoeth Naturiol Cymru ers dros ddegawd, a pheryglwyd yr ewyllys da barhaus honno ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Y cefndir

Mae 33 o afonydd yng Nghymru sy'n cynnwys rhywfaint o [eogiaid](#) ac, o'r rhain, caiff [23 eu dynodi fel prif afonydd eogiaid \(PDF 155KB\)](#). O'r 23 o afonydd hyn, mae pedair wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan y [Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewropeaidd](#). Mae terfynau cadwraeth a thargedau rheoli wedi'u sefydlu ar gyfer y prif afonydd.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am reoli pysgodfeydd mewndirol a physgodfeydd eogiaid yng Nghymru. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru, fel awdurdodau pysgodfeydd eraill yn y DU, bwerau i lunio is-ddeddfau cenedlaethol a lleol i gynorthwyo â'r gwaith o ran cadwraeth stociau pysgod yn afonydd Cymru. Mae'r is-ddeddfau hyn yn rhoi nifer o fesurau rheoli ymdrech ar waith i sicrhau bod stociau'n cael eu defnyddio'n gynaliadwy. Gall y rhain gynnwys mesurau megis cyfyngiadau o ran pa daclau y gellir eu defnyddio i bysgota rhywogaethau gwahanol, adegau'r flwyddyn y gellir pysgota rhywogaethau gwahanol a'r lleoliadau lle y gellir pysgota rhywogaethau gwahanol. Un dull rheoli ymdrech yw 'dal a rhyddhau'; mae hyn yn ofyniad i bob pysgotwr ddychwelyd y pysgod y maent yn eu dal i'r afon (heb eu lladd).

Gall CNC wneud is-ddeddfau drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddo gan [adran 210](#) a [pharagraff 6 o Atodlen 25](#) i [Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991](#). Mae [Atodlen 26](#) o'r Ddeddf yn nodi gweithdrefn i'w dilyn er mwyn gwneud yr is-ddeddfau sy'n cynnwys proses ar gyfer ymchwiliad lleol os ceir gwrthwynebiadau.

Dyletswydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mewn perthynas â phwynt 3 y ddeiseb, mae Adran 6(6) o [Ddeddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn datgan:

6. Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

(1) Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

...

(6) Rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio ag is-adran (1)..

Mae CNC yn gyfrifol am ddatblygu [Datganiadau Ardal](#), sef gofyniad [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#). Mae'r [Polisi ar Adnoddau Naturiol](#) yn canolbwyntio ar gyflawni nodau [rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol](#) ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer Datganiadau Ardal. Mae [Canllawiau](#) Llywodraeth Cymru ar adran 6, Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn nodi'r canlynol:

Bydd Datganiadau Ardal yn:

- Darparu tystiolaeth i gefnogi awdurdodau cyhoeddus wrth gydymffurfio â dyletswydd A6

Mae CNC hefyd yn cyhoeddi [Cynlluniau Rheoli Basn Afon](#) sy'n edrych ar y pwysau sy'n wynebu amgylchedd dŵr Cymru.

Bwrdd CNC

Nodir [Telerau Cyfrifoldeb](#) Bwrdd CNC mewn papur sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n nodi'r canlynol:

Bydd y Cadeirydd yn cloi pob eitem ar yr agenda yn glir gyda chrynodeb o'r drafodaeth; yn cadarnhau unrhyw gamau i'w gweithredu a'r penderfyniadau a gymerwyd.

Nid oes gwybodaeth ar gael a oes angen pleidlais i basio penderfyniadau.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb dros reoli pysgodfeydd eogiaid yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae CNC wedi bod yn mynd trwy broses o ystyried pa gamau ychwanegol y gall fod eu hangen, os oes rhai, i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn stociau eogiaid yn afonydd Cymru.

Ar 17 Mawrth 2016, cyflwynwyd [papur](#) i Fwrdd CNC a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a gymerwyd gan CNC yn ystod y flwyddyn flaenorol i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn stociau. Amlinellodd gynigion ar gyfer rhagor o gamau gweithredu. Roedd y papur yn nodi, er nad yw CNC o'r farn mai pysgota â gwiall a rhwydi yw prif achos y dirywiad mewn stociau, ei fod yn credu na ellir cynyddu nifer y pysgod sy'n goroesi i'r cam silio mewn afonydd yng Nghymru, yn y tymor byr, 'oni bai bod pysgotwyr â gwiall a rhwydi'n rhoi'r gorau i ladd pysgod yn gyfan gwbl'.

Mae CNC yn datgan ei fod wedi ymgynghori'n ffurfiol ac yn anffurfiol â physgotwyr a grwpiau pysgodfeydd lleol ar y camau gweithredu posibl y gellir eu cymryd i reoli stociau eogiaid, gan gynnwys drwy ddsbarthu holiadur.

Yn 2017, cynhaliodd CNC ymgynghoriad ar [reoliadau dalfeydd eogiaid a sewin](#). Roedd yr ymgynghoriad mewn 3 rhan ac roedd pob un yn edrych ar y canlynol:

- Y cais am Orchymyn Cyfyngu ar Rwydi 'Cymru Gyfan' 2017 newydd;
- Cynigion ar gyfer is-ddeddfau pysgota rhwyd a gwialen newydd ar draws Cymru gyfan (ac eithrio afonydd trawsffiniol Dyfrdwy, Hafren a Gwy); a
- Chynigion ar gyfer 'Is-ddeddfau Trawsffiniol (Cymru)' newydd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r tair afon hynny.

Cyflwynodd CNC [Achos Technegol](#) yn cefnogi'r ymgynghoriad, a [Chrynodeb Gweithredol](#) sy'n edrych ar yr opsiynau a ystyriwyd. Daeth CNC i'r casgliad canlynol ar gyfer cyfnod 10 mlynedd:

a 'zero kill' policy for salmon and some identified sea trout stocks through statutory catch-and-release fishing with appropriate restrictions on fishing methods – regulation of exploitation through new byelaw.

Mae'r Achos Technegol yn ystyried cau pysgodfeydd penodedig. Fodd bynnag, mae CNC yn dod i'r casgliad y byddai hyn yn arwain at effeithiau economaidd-gymdeithasol anghymesur, a bod dull dal a rhyddhau gorfodol yn well na chau pysgodfeydd.

Trafodwyd yr is-ddeddfau arfaethedig newydd yng [Nghyfarfod Bwrdd CNC](#) ar 18 Ionawr 2018.

